

Rheoli Clefydau Pwmpenni

Taflen Cyngor Technegol

Llwydni Blodiog

Y prif glefyd sy'n achosi pryder o ran pwmpenni yn ystod dyddiau cynnar y tymor yw llwydni blodiog; gall fod yn broblem o fis Mehefin ymlaen, gan ddechrau wrth i'r planhigyn flodeuo. Mae haint ffwngaidd gwyn blodiog ar y dail yn gallu lledaenu ar draws wyneb y ddeilen nes y bydd y ddeilen yn cwmpo. Yn sgil hyn, bydd llai o siwgr ar gael i'r ffrwythau wrth iddynt dyfu, ac felly bydd y ffrwythau'n llai eu maint.

Pan fyddwch yn archwilio'r cnydau, cadwch lygad am arwyddion o llwydni blodiog ar hyd y canopi i gyd - mae'r clefyd yn fwy tebygol o ddatblygu mewn lleoedd cynnes, cysgodol, fel arfer o amgylch y dail hŷn yn rhan isaf y canopi. Mae amrywiaeth o gynhyrchion ar gael i reoli llwydni blodiog (gweler isod), ac mae triniaeth bicarbonad gradd-bwyd ar gael i dyfwyr organig. Bydd bicarbonad ond yn trin y clefyd sy'n bresennol adeg ei ddefnyddio, gan nad yw'n rhoi gwarchodaeth barhaus.

Mae llwydni blodiog yn llai o broblem yn hwyrach yn y tymor, ar ôl i'r ffrwythau ddechrau aeddfedu, oherwydd bydd golau yn cyrraedd y ffrwythau wrth i'r planhigion fwrw eu dail.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Pydru Eilaidd

Yn ogystal â llwydni blodiog, gall pydru eilaidd achosi pryder. Gall difrod i'r dail olygu bod perygl y bydd Botrytis yn datblygu ar y dail, ond gellir chwistrellu ffwngladdwr addas (e.e. Signum) ar y planhigion i reoli hyn os oes perygl sylweddol i'r cynyau.

Mae pydredd ar y ffrwythau, naill ai oherwydd clwyfau neu greithiau blodau ar waelod y ffrwythau, yn gallu achosi problem yn hwyrach yn y tymor. Gall rheoli lefelau maeth calsiwm yn ofalus fod yn ddefnyddiol i gryfhau'r ffrwythau, i'w galluogi i wrthsefyll datblygu pydredd.

Os bwriedir codi'r ffrwythau, ni ddylid eu golchi, ond dylent gael eu cadw mewn storfa dwym (neu dymheredd amgylchynol) i'w caledi heb eu hoeri. Mae ffrwythau'n gallu cael eu storio fel hyn am fisoedd lawer heb fynd yn ddrwg, sy'n golygu bod modd eu gwerthu yn y gwanwyn.



Powdery Mildew Control Options for Pumpkin						
Product	Active Ingredient	Max no. applications	Max Individual Dose (L/ha or kg/ha)	Max Total Dose (L/ha or kg/ha)	Harvest interval (days)	FRAC no.
Amistar EAMU 0893/2017	azoxystrobin	2	1.0	-	3	11
Serenade ASO EAMU 0706/2013	<i>Bacillus subtilis</i> strain QST 713	20	10.00	-	0	44
Signum EAMU 2651/15	boscalid + pyraclostrobin	-	1.5	3.0	1	7 + 11
Takumi SC EAMU 2915/16	cyflufenamid	2	0.15	-	1	U06
Prestop EAMU 2843/18	<i>Gliocladium catenulatum</i> strain J1446	3	6.00	-	Apply before fruit has reached full size on main stem	BM02
Karma EAMU 2503/19	potassium hydrogen carbonate	8	3.0	-	1	N/A
Talius EAMU 2627/2015	proquinazid	1	0.25	-	3	13

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio'r holl gemegau amddiffyn cnydau yn unol ag argymhellion labeli, y dylid cyfeirio atynt cyn chwistrellu. Cyfrifoldeb y defnyddiwr yw'r defnydd o'r plaladdwr, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar labeli ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr yn agored i newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr neu bryfed buddiol. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan arbenigwr cymwys - cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor ar gael dros e-bost/dros y ffôn ar gael hefyd. Nid ydym yn gwarantu, yn cymeradwyo, yn rhoi sicrwydd nac yn cymryd cyfrifoldeb am gywirdeb na dibynadwyedd unrhyw wybodaeth a gynigir gan wefannau trydydd partïon y ceir dolenni atynt yn y ddogfen neu unrhyw wefan neu erthygl y ceir dolenni ati mewn unrhyw faner neu hysbyseb arall.